**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 15 Mawrth, 2011 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd David Richardson – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Dewi Owen – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr Alun Wyn Evans, Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates, Cyng. Megan Reynolds (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Andy Jeffrey (Outward Bound Wales a Chlwb Hwylio Aberdyfi), Mr Roger Lawson-Mole (Siambr Fasnach Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Sam Wilding (Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion)

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Trevor Roberts (Cyngor Gwynedd)

**Eraill a Wahoddwyd:** Mr Dafydd Williams, Mr Mark Medway (Asiantaeth yr Amgylchedd), Mr Marcus Vergette (Cloch Amser a Llanw).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Ioan C. Thomas, Louise Hughes, (Cyngor Gwynedd), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi) Mr Desmond George.

1. **GAIR O GROESO**

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod gan Gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd David Richardson:

Mr Dafydd Williams a Mr Mark Medway – Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Eitem
Mr Marcus Vergette - Dylunydd y gloch amser a llanw ar gyfer Eitem

2. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 19 Hydref 2010.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:-

(i) Dwr Ymdrochi Aberdyfi
(ii) Ffioedd a Thaliadau
(iii) Cyllidebau
(iv) Mordwyo
(v) Staff
(vi) Cloch Llanw ac Amser
(vii) Wal y Cei
(viii) Llithrfa

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

(i) bod ansawdd Dŵr Ymdrochi Aberdyfi wedi cwrdd â safon ofynnol angenrheidiol yn 2010 ac er na gyrhaeddodd y safon ofynnol ar gyfer Gwobr y Faner Las Rhyngwladol fe fyddai cais yn cael ei gyflwyno am Wobr Traeth Tref Glan Môr 2011.

Eglurwyd bod Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd newydd yn dod i rym yn 2015 ac y byddai cwrdd â'r meini prawf caeth i ddyfroedd ymdrochi yn rhai heriol. Nodwyd bod gwobrau traeth yn bwysig iawn ac yn codi statws traethau ac o ganlyniad yn denu ymwelwyr i'r ardal. Roedd y Pwyllgor hwn yn y gorffennol wedi bod yn annog swyddogion i gyflwyno cais am y Faner Las ac un o'r gofynion ydoedd cydymffurfio ag ansawdd dŵr ymdrochi. Cyfeiriwyd Aelodau at ganlyniadau dŵr ymdrochi dros yr 20 mlynedd diwethaf gan nodi bod ansawdd y dŵr o safon ardderchog yn 2005 a 2006. Trafodwyd yr ansawdd dwr ymdrochi ar sawl achlysur gan y Pwyllgor hwn gyda llawer o awgrymiadau gan yr Aelodau ynglŷn â'r rhesymau pam nad oedd y dŵr yn cyrraedd y safon. Trafodwyd hefo Asiantaeth yr Amgylchedd oddeutu blwyddyn yn ôl ynglŷn â'r posibilrwydd o ystyried ail-leoli'r pwynt samplo yn Aberdyfi drwy edrych ar sawl lleoliad posibl megis Traeth y Fynwent. Fe fyddai ail-leoli'r pwynt samplo yn creu trafferthion i'r Gwasanaeth Morwrol sydd yn gyfrifol am reoli'r traethau ac er nad oedd penderfyniad terfynol wedi ei wneud hyderir y gellir parhau gyda'r pwynt samplo arferol gan barhau hefo'r elfen bositif i gynnal y gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli ar y dŵr.

Croesawyd Mr Dylan Williams, Arweinydd Tîm Gwarchod yr Amgylchedd dros ardal Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd, a'i gyd-swyddog Mr Mark Medway i annerch y cyfarfod. Nodwyd bod y ddau swyddog wedi bod yn ymwneud â safonau dŵr ymdrochi ers blynyddoedd.

Yng nghyswllt Aberdyfi, cadarnhawyd nad oedd safon y dŵr yn cyrraedd y safon uchaf yn gyson ar rai adegau ac wedi bod yn destun ymchwil i'r rheswm am hyn gan yr Asiantaeth ers rhai blynyddoedd bellach. Fe hyrwyddir Dŵr Cymru gyda'r gwelliannau a wneir ganddynt yn yr ardal yn ogystal ag ymchwilio i faterion penodol a all amharu ar safon y dŵr.

Tra'n derbyn bod dŵr ymdrochi Aberdyfi wedi amrywio yn y safonau o fod yn wael, da ac weithiau ardderchog, nid oedd patrwm parhaol o ddirywiad neu welliant. Un o'r pethau pwysicaf sydd yn dylanwadu'r canlyniadau dŵr ydoedd safle'r pwynt a benodir ar gyfer samplo yn Aberdyfi fel ei fod yn adlewyrchu'r safle lle mae mwyaf o ymdrochi'n digwydd. Tra'n derbyn bod yr afon yn cael effaith ar y safon lle welir canran bacteria yn uwch fe all safon y dŵr gael ei effeithio gan unrhyw fath o weithgaredd boed hyn yn ddŵr wyneb sy'n rhedeg o'r tir megis ffynonellau amaethyddiaeth, gweithgaredd tir, carthffosiaeth, a gorlifiadau yn yr ardal. Y canlyniad ydoedd nad oedd pwynt arbennig lle'r oedd problem o facteria uchel o amgylch Aberdyfi ac y gall y broblem ddeillio o nifer o ffactorau.

Gwnaed astudiaeth gan ymgynghorwyr annibynnol sydd wedi profi bod dros 95% o'r bacteria yn dod o ffynhonellau'r dalgylch a ddim yn uniongyrchol o ased safle pwmpio Dŵr Cymru. Bwriedir cynnal ymchwiliadau ychwanegol drwy edrych ar ffermydd, tanciau septig, cerdded yr afonydd, awdit o unrhyw sustemau carthffosiaeth yn y dalgylch, safleoedd carafanau chynnal samplau ad hoc, er mwyn ceisio darganfod fwy o wybodaeth.

I gloi, apeliodd Mr Williams ar Aelodau pe byddent yn gweld unrhyw broblem a all gyfrannu tuag at y broblem uchod, iddynt gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn ddi-oed.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) O edrych ar y canlyniadau ymddengys bod samplau gwael yn ystod llanw uchel ar drai ac oni ddylid cymryd sampl yn ystod llif.

Mewn ymateb, esboniodd Mr Dylan Williams o ran samplo rhaid bod yn gyson a chymryd sampl lle mae ymdrochwyr ond ceisir cymryd y samplau ar adegau gwahanol o'r llanw.

(b) Cadarnhaodd Mr Williams nad oedd gan yr Asiantaeth unrhyw wybodaeth o bobl wedi mynd yn sâl yn dilyn ymdrochi yn Aberdyfi. Nododd Aelod nad oedd hi a'i theulu wedi cael unrhyw broblemau iechyd yn deillio o ymdrochi yn Aberdyfi am nifer o flynyddoedd.

(c) Gofynnwyd a oedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cymryd samplau ac ochr ddeheuol o'r Afon Leri gan fod morwyr wedi cwyno'n gyson o ddrewdod yn y man arbennig hwn ac efallai bod hyn yn cyfrannu tuag at lygredd yn y foryd.

Mewn ymateb, cadarnhaodd Mr Williams bod profion wedi eu cymryd a'r canlyniad ydoedd nad oedd yr Afon yn cyfrannu tuag at lygredd o safbwynt y darlun cyfan fel petai. Rhaid cydnabod bod llawer iawn o ffactorau mewn dyfrodd morydol sydd yn cyfrannu tuag at ganran uchel o facteria megis mwd, a.y.b.

Diolchwyd i Mr Williams a Mr Medway am y cyflwyniad cynhwysfawr iawn a'u hamser i'r Pwyllgor hwn.

(ii) bod holl gwsmeriaid yr Harbwr wedi derbyn gwybodaeth ynglyn â ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer 2011/12 a oedd i'w cymeradwyo maes o law gan Swyddogion Statudol y Cyngor a'r Arweinydd Portffolio perthnasol. Tynnwyd sylw'r Aelodau o'r bwriad i gysoni'r ffioedd i holl gleientiaid eleni boed hwy yn byw yn lleol neu du allan i Wynedd a rhagwelir y byddai'r sustem yn fwy rhwydd i'w reoli, a.y.b. Cyfeiriwyd at y tabl gerbron yng nghyswllt chwyddiant gan ragweld y byddai chwyddiant yn Harbwr Aberdyfi yn 1.53%. Nodwyd ymhellach ar y cyfan y byddai ffioedd yn codi oddeutu 2%. Pwysleisiwyd bod y gwasanaeth dan bwysau sylweddol i gyrraedd targedau incwm ac yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni anodd iawn ydoedd rheoli cyllidebau hefo cyn lleied o ffynhonellau incwm sydd ar gael yn ychwanegol i'r hyn sy'n bodoli'n barod.

Nodwyd mai'r incwm ychwanegol oedd angen i'r Uned Forwrol ei gasglu yn 2011/12 ydoedd £57,330 gan nodi fod y cynnydd hwn yn cynyddu'r targed incwm i £2,219,360 a bod hyn yn hynod heriol gyda'r angen i'r Uned fod yn gystadleuol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Oni ellir codi tal i gynyddu'r incwm ar y sawl sydd yn defnyddio'r raciau storio wrth ymyl y llithrfa o ystyried bod oddeutu 30 caiac yn cael eu storio yn rhad ac am ddim.

Mewn ymateb tra'n cytuno hefo'r egwyddor, esboniodd y Swyddog Morwrol ei fod yn fwriad gan y Swyddog Morwrol Harbyrau a'r Harbwr Feistr i drafod y mater er ystyried y mater hwn ond na

ellir gwarantu defnydd y raciau ar gyfer ceufadau gan eu bod wedi eu lleoli ar y safle ar gyfer defnydd cychod gweini cwsmeriaid angorfeydd. Adroddwyd bod disgwyl bydd y Swyddog Morwrol Harbyrau a'r Harbwr Feistr wedi cychwyn cynllun rheoli'r raciau a chodi ffi am gadw ceufad ar y raciau cyn dechrau tymor yr haf eleni.

(b) Y dylid atgoffa Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu mai twristiaeth sydd yn creu incwm yn Aberdyfi gyda phob busnes yn talu treth i'r Cyngor ac oni ddylai'r Cyngor ystyried cyfrannu yn ôl i'r Harbwr.

(c) Nododd y Cadeirydd y dylid fod wedi cynnwys cyfieithiad o'r gair "diddymu" ar y ffurflen ac nad oedd wedi cael ei wneud yn glir o'r bwriad i gysoni ffioedd ar gyfer trigolion lleol a thrigolion o du allan y Sir. Dylid fod wedi cynnwys esboniad gyda'r ffurflen gais.

Ychwanegodd, fel mater o ddiddordeb, bod erthygl mewn cylchgrawn mordwyo yn datgan mai allan o 14 marina yng Nghymru, Pwllheli oedd y drutaf, ac wedi ei ddynodi yn 41 allan o 240 marina o fewn Prydain Fawr.

(ch) Ei bod yn amlwg bod nifer o angorfeydd gwag yn yr Harbwr ac o ganlyniad nid yn unig bod y gwasanaeth morwrol yn colli incwm ond hefyd busnesau lleol.

Mewn ymateb, esboniodd y Cadeirydd ei fod, mewn ymgynghoriad a'r Harbwr Feistr, wedi darganfod mai 15 cwsmer ar y rhestr aros oedd wirioneddol yn awyddus i gael angorfa. Nododd ymhellach bod Aberdyfi yn colli allan ac y dylid tynhau'r polisi rhestr aros.

Crybwyllodd Aelod bod Ceredigion gyda phroblem gyffelyb ac wedi cyflwyno ffi o £25.00 i fod ar restr aros ac ers hynny roedd y rhestr aros wedi lleihau.

Adroddwyd gan y Swyddog Morwrol nad oedd yna unrhyw reswm bod 'rhestr aros' yn bodoli yn Aberdyfi yn enwedig wrth gofio nad oedd nifer helaeth o gychod ar angorfa yn harbwr Aberdyfi. Mae incwm a dderbynir drwy ffioedd a thaliadau angorfeydd yn isel iawn ac ni allai'r Cyngor wrthod unrhyw gais am angorfa yn Aberdyfi. Cadarnhaodd y bydd yn hanfodol bod y Swyddog Morwrol Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn sicrhau fod pawb sydd yn dymuno angorfa yn Aberdyfi yn derbyn angorfa yn 2011 ac ni dderbynir unrhyw reswm nad oes lleoliad addas ar gfyer angorfa yn yr harbwr.

(iii) Yng nghyswllt **cyllidebau**, nodwyd targed incwm o £39,270 am 2010/11 ac mai'r cyfanswm incwm hyd ddiwedd Rhagfyr 2010 ydoedd £31,003, o'i gymharu â £31,694 am yr un cyfnod llynedd. Rhagwelir y bydd diffyg o oddeutu **£7,000** mewn incwm i harbwr Aberdyfi gan bwysleisio bod y swm hwn yn cynnwys lleihad yn nifer o staff dros gyfnod y gaeaf a hefyd yn cynnwys arian a gyflwynwyd i'r gyllideb o benawdau morwrol eraill i gwblhau prosiectau yn Aberdyfi. Tywyswyd yr Aelodau drwy'r taenlenni cyllidebau gan dynnu sylw y byddai gwariant tebygol ar gyfer Aberdyfi oddeutu £77,000.

Pwysleisiwyd yr angen i gynyddu angorfeydd parhaol o ystyried mai £24,000 yw'r targed ac ychydig dros £16,000 sydd wedi dod i mewn hyd yma. Nid yw parhau gyda swm incwm isel yn gynaladwy.

Nodwyd ymhellach, oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni am yr angen i edrych ar arbedion effeithlonrwydd o fewn llywodraeth leol ac felly 'roedd yn ofynnol gweithredu'n gost effeithiol er mwyn ceisio amddiffyn y cyfleusterau sy'n bodoli.

I gynorthwyo, nododd y Cadeirydd y byddai eto eleni yn anfon poster i oddeutu 32 o lefydd i geisio hyrwyddo ymwelwyr i Aberdyfi.

Pwysleisiodd Aelod y dylid marchnata Aberdyfi mewn arddangosfeydd a sioeau cychod yn enwedig o ystyried yr incwm a geir o angorfeydd.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol y byddai marchnata yn costio'n sylweddol ac nid oedd cyllideb ar gael i fedru gwneud hyn.

(iv) yng nghyswllt **mordwyo,** nodwyd bod yr holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i Harbwr Aberdyfi wedi aros yn eu lle yn ystod rhan gyntaf y gaeaf gan bwysleisio bod ansawdd y bwiau yn dda iawn.

(v) ymhelaethwyd ar y sefyllfa **staffio** gan nodi y bwriedir cyfweld y sawl sydd wedi ymgeisio am y swydd Cymhorthydd Harbwr yn Aberdyfi gyda'r bwriad i'r ymgeisydd ddechrau ar y 7 Ebrill hyd at 30 Medi 2011.

Bwriedir penodi Swyddog Traeth i Aberdyfi i ddechrau mis Mehefin gan ystyried y posibilrwydd o gyflogi dau Swyddog Traeth tymhorol yn Nhywyn.

(vi) adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar gefndir y cais i leoli "Cloch Llanw ac Amser" er nad oedd yn fater uniongyrchol i'r Gwasanaeth Morwrol. Nodwyd y bydd iddo ef a'r Prif Beiriannydd gwrdd â chynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned i drafod egwyddor y prosiect fel man cychwyn a hyderwyd y bu iddynt roi arweiniad clir ar ofynion y Cyngor er sicrhau lleoli'r gloch llanw ac amser mewn man priodol, sef o dan y lanfa yn Aberdyfi. Pwysleisiwyd yng nghyd-destun y prosiect na ddylai unrhyw gostau yn deillio ohono ddisgyn ar y Cyngor nac ychwaith costau cynnal a chadw'r gloch llanw. Ni fyddai'r Cyngor ychwaith yn gyfrifol am unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â'r gloch llanw tra ar y lleoliad yma. Derbyniodd y Cyngor Cymuned arweiniad bod angen adroddiad peirianyddol a fyddai'n cyfeirio at strwythurau i sicrhau bod y lanfa ddigon cryf i gymryd y gloch dan sylw. Fodd bynnag, derbyniwyd adroddiad yn ol a oedd yn cyfeirio at gyflwr y lanfa ac nid at strwythurau. O'r herwydd, gofynnwyd am fwy o astudiaethau gan nad oedd cadarnhad derbyniol ynglyn ag effaith y gloch ar strwythur y lanfa.

Nododd y Cadeirydd bod y prosiect hwn yn gyffrous iawn ar gyfer Aberdyfi ac ategodd y Cynghorydd Dewi Owen, Cadeirydd y Cyngor Cymuned, y byddai hwn yn atyniad i ddenu mwy o ymwelwyr i Aberdyfi. Roedd aelodau wedi gweithio'n ddiwyd ynghylch â'r prosiect hwn dros y misoedd diwethaf yn ogystal â chyflwyno adroddiad peirianyddol i'r Cyngor sy'n cadarnhau na fyddai unrhyw bwysau ar y lanfa. Hefyd sicrhawyd na fyddai'r gloch yn amharu ar fwynderau trigolion cyfagos o ran sŵn a hyderai'r Aelodau y gall y prosiect fynd ymlaen yn fuan yn hytrach na hwyrach.

Croesawyd Mr Marcus Vergette, Dylunydd y Gloch Llanw ac Amser, gan y Cadeirydd gan ategu y byddai'r prosiect yn clymu'n dda hefo chwedl Clychau Cantref Gwaelod. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Ionawr 2010 pryd y derbyniwyd cefnogaeth unfrydol trigolion y gymuned i'r prosiect ond erbyn hyn teimlir rhwystredigaeth yn yr amser a gymerir i dderbyn caniatâd i symud ymlaen fel bo modd gosod y gloch llanw ar y lanfa.

Ategodd Mr Vergette bod llawer o drafodaethau wedi digwydd ac yn sicr y byddai'n atyniad i ddenu mwy o ymwelwyr i Aberdyfi gan roi'r pentref ar y map fel petai. Roedd wedi sicrhau arian ar gyfer y prosiect ond teimlwyd rhwystredigaeth mewn symud ymlaen ac oni fyddai modd datrys pryderon y Cyngor yn gyflym, rhagwelai y byddai'r prosiect yn cael ei gynnig i leoliad arall yn y wlad.

O safbwynt y dyluniad, sicrhaodd Mr Vergette bod y lanfa yn ddigonol o ran maint a strwythur i gynnal y gloch gan nodi pwysau o 18.4kg wrth 20kg. Roedd yn hyderus bod y pwysau yn rhai cymwys a'i fod wedi cynnig datrysiadau i broblemau a gyfyd mewn gwahanol fannau o Brydain Fawr lle gosodwyd cloch gyffelyb.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Beiriannydd, tra'n derbyn bod lleoliad wedi caniatáu yn deillio o gyfarfod ym Medi 2010, roedd angen cadarnhad ysgrifenedig ar faterion megis caniatad cynllunio, caniatad gan FEPA, yn ogystal â chydymffurfio â Deddf Tir Ddraeniad Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ychwanegodd y Prif Beiriannydd, yn wyneb y ffaith y byddai'r gloch yn hongian oddi ar y lanfa y byddai'n rhaid ystyried elfen o ddiogelwch i'r cyhoedd. Bu i'r Cyngor Cymuned gomisiynu cwmni DATRYS o Gaernarfon i baratoi'r adroddiad peirianyddol ond yn anffodus yr hyn a gyflwynwyd ydoedd arolwg cyflwr gydag argymhellion i'w gweithredu ond hyd yma nid oedd yr argymhellion rheiny wedi eu gwireddu.

Yn ol dealltwriaeth y Cadeirydd, rhaid derbyn tystysgrif perchennog ar gyfer cyflwyno caniatad cynllunio i Barc Cenedlaethol Eryri ac roedd hyn yn profi'n anodd derbyn y dystysgrif gan Gyngor Gwynedd fel perchennog y lanfa.

Tra'n derbyn yr elfen o gyfrifoldeb dros ddiogelwch y cyhoedd, cadarnhaodd y Cadeirydd bod yr elfen o bwysau'r gloch llanw wedi cael sylw gan arbenigwr proffesiynol. Dylai'r elfen o berchnogaeth y lanfa fod yn syml drwy i Gyngor Gwynedd gyflwyno llythyr yn nodi tystiolaeth o'i berchnogaeth o'r lanfa ac ni ellir deall pam bod cymaint o oedi yn y mater.

Yn wyneb y ffaith bod materion technegol yn destun pryder, gofynnwyd i'r Prif Beiriannydd a Mr Marcus Vergette drafod y materion hyn ymhellach yn dilyn y cyfarfod hwn.

(vii) cyflwynwyd i'r aelodau gynllun a diweddarodd y Peiriannydd y Pwyllgor ynglyn â'r gwaith sydd angen i atgyweirio **wal y cei** yn deillio o arolwg a gwblhawyd yn ddiweddar ynghyd ac amcangyfrif o'r gost yn y swm o £890,000 i adnewyddu'r wal yn unig. Rhagwelir y byddai'r gwaith yn cael ei raglennu rhwng 2015 a 2020 ac nad oedd y swm yn cynnwys darpariaeth pontynau. O safbwynt cyllido'r gwaith, nid oedd y Prif Beiriannydd yn argyhoeddedig y byddai'n denu grant Ewropeaidd.

Cydnabyddodd y Swyddog Morwrol waith Uned Amddiffyn yr Arfordir mewn darparu'r cynllun mewn cyfnod heriol o ran adnoddau gan ychwanegu bod yn rhaid bod yn realistig gyda'r amserlen.

(viii) o safbwynt y **llithrfa,** nododd y Swyddog Morwrol bod gwelliannau wedi eu cwblhau ac wedi gwella'r ansawdd. Fe fyddai llithrfa'r Bad Achub yn cael sylw maes o law ac fe'i hysbysir o hyn.

Diolchwyd i'r Gwasanaeth Morwrol gan gynrychiolydd yr Outward Bound am sicrhau gwybodaeth iddynt a gwerthfawrogiad o'r gwaith a gwblhawyd yn ddiweddar ym Mae'r Eglwys.

**Penderfynwyd:- Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynghyd â'r sylwadau ychwanegol a wnaed uchod.**

## 5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR

### (a) Llithrfa Penhelyg - Rhwystr i atal cerbydau barcio ger y fynedfa

Roedd hyn yn gysylltiedig â pheintio bocs top llithrfa Penhelyg i atal pobl rhag parcio ger y giatiau. Cafwyd nifer gynyddol o adegau pan fo mynediad i'r llithrfa wedi ei rwystro.

Eglurodd y Swyddog Morwrol nad oedd y gwasanaeth yn awyddus i agor y llithrfa i ddefnydd cyhoeddus ond ei fod yn ymwybodol bod cychod gweini yn cael eu cadw yn yr ardal. Ychwanegodd yr Harbwr Feistr ei fod wedi trefnu a chadarnhau y byddai llinellau yn cael eu gosod ym mis Ebrill. Nodwyd bod y giât sy'n arwain i'r llithrfa wedi ei chloi gyda'r allwedd yn cael ei chadw o dan reolaeth yr Harbwr Feistr a fyddai'n barod, ar unrhyw amser, i agor y giât pe byddai angen.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 6. UNRHYW FATER ARALL

### (a) Datblygu Cyfleusterau Storfa I'r Pysgotwyr

Croesawyd Mr Sam Wilding, Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion, i annerch y Pwyllgor yn unol â'i gais ynglyn a datblygu cyfleusterau storfa i bysgotwyr.

Esboniodd Mr Wilding mai'r gobaith ydoedd sicrhau cyllideb gan y Cynulliad Cenedlaethol i brosiect ar gyfer Bae Ceredigion i ddatblygu rhwydwaith o gyfleusterau storfa i bysgod cregyn er mwyn gwella mynediad i farchnadoedd lleol gan fod oddeutu 95% o bysgod cregyn sy'n cael eu dal ym Mae Ceredigion yn cael eu hallforio. O ganlyniad roedd pysgotwyr yn colli incwm ac nid oedd busnesau lleol yn manteisio ac ofnir, oherwydd cynnydd yng nghostau tanwydd, y gall y farchnad o werthu pysgod cregyn ddiflannu. Gofynnodd Mr Wilding am syniadau o leoliadau addas yn Aberdyfi ar gyfer ystyriaeth bellach i'r prosiect uchod ac efallai y byddai modd ei gyplysu fel atyniad dwristiaeth i hyrwyddo pysgotwyr lleol.

Adroddodd y Swyddog Morwrol ei fod wedi trafod cyfleoedd i bysgotwyr gyda swyddogion y Gymdeithas Pysgotwyr yn y gorffennol ac roedd yn fodlon trafod y bwriad arfaethedig ymhellach ac efallai y byddai o fudd edrych ar becyn i gynnwys Abermaw.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol**

### (b) Clirio Tywod

**Adroddwyd:** Gan y Prif Beiriannydd na fyddai'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth yn ymgymryd â'r gwaith o glirio tywod eleni.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 18 Hydref 2011.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod.**

**CADEIRYDD**